**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil**

**1 Awst 2023 – 31 Gorffennaf 2024**

## A, Gwybodaeth Allweddol ar gyfer Cysylltu

1, Paratowyd a chydlynwyd y datganiad hwn gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil a Jennifer Deaville, Rheolwr Datblygu Ymchwil.

2, Cyflwynwyd a chymeradwywyd y datganiad hwn gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ar 25 Hydref 2024.

3, Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r datganiad hwn neu unrhyw un o weithgareddau'r Brifysgol yng nghyswllt â'r Concordat at un o'r cysylltiadau canlynol:

Yr Athro Angela Hatton - Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth, Cadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (aelod uwch o staff a enwir i oruchwylio uniondeb ymchwil).

Lisa Fisher – Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil, Ymchwil, Busnes ac Arloesi (Aelod o staff a enwir a fydd yn gweithredu fel cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd eisiau mwy o wybodaeth am faterion yn ymwneud ag uniondeb ymchwil).

Dr Jennifer Deaville – Rheolwr Datblygu Ymchwil, Ymchwil, Busnes ac Arloesi

4, Os oes gan unrhyw un sy'n darllen y ddogfen hon bryderon ynghylch ymddygiad ymchwilydd o Brifysgol Aberystwyth, dylent ystyried y polisi a'r weithdrefn berthnasol yn y lle cyntaf. Os nad ydych yn siŵr pa bolisi sy'n berthnasol neu os ydych yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, cysylltwch â'r tîm Moeseg Ymchwil a fydd yn gallu eich cynghori:

*Prifysgol Aberystwyth, Sefydliad Addysg Uwch*
*Ymchwil, Busnes ac Arloesi*
*ethics@aber.ac.uk*
Moeseg Ymchwil : Ymchwil, Busnes ac Arloesi , Prifysgol Aberystwyth

## B, Y Cefndir

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo'n gadarn i'r egwyddorion a geir o fewn y **Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.** Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau ar waith i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn cynghori y dylai cyflogwyr ymchwilwyr gynhyrchu datganiad blynyddol i'w gyflwyno i'w corff llywodraethu eu hunain sy'n darparu:

- Crynodeb o’r camau gweithredu a gymerwyd a’r gweithgareddau a drefnwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad materion yn ymwneud ag uniondeb ymchwil.
- Datganiad i roi sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith gan y sefydliad ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn a theg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
- Datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd i gamymddwyn mewn ymchwil.
- Datganiad ar yr hyn y mae'r sefydliad wedi'i ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd i gamymddwyn mewn ymchwil.
- Datganiad ar sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

## C, Diben a Chyd-destun

6, Dyma Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ("Datganiad Blynyddol"). Mae'r datganiad blynyddol hwn yn nodi sefyllfa'r Brifysgol o ran uniondeb ymchwil, gan gynnwys pa gamau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â sicrwydd o'r broses ar gyfer ymdrin â, a datgelu unrhyw honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil. Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, y Weithrediaeth a'r Senedd a bydd ar gael i'r cyhoedd drwy wefan Prifysgol Aberystwyth, fel yr argymhellwyd gan y Concordat.

## D, Cyfnod y Datganiad Blynyddol hwn

7, Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn adrodd ar y camau a'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu'r datganiad gofynnol ar gamymddwyn mewn ymchwil am yr un cyfnod.

## E, Hyrwyddo safonau uchel o uniondeb ymchwil a diwylliant ymchwil cadarnhaol. Disgrifiad o'r camau a'r gweithgareddau a gyflawnir ar hyn o bryd.

### Systemau a diwylliant presennol

8, Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo'n gadarn i'r egwyddorion a geir o fewn y **Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil**. Rydym yn ymdrechu i wella atebolrwydd yn barhaus a rhoi sicrwydd bod mesurau ar waith i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil.

### Polisïau a systemau

9, Mae'r Brifysgol yn cynnal nifer o bolisïau a gweithdrefnau nid yn unig i sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn briodol, ond hefyd i sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon neu wneud ymholiadau. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd gan y pwyllgor Llywodraethu Prifysgolion priodol:

- Fframwaith Moeseg Ymchwil
- Polisi Ymchwil Sensitif
- Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil
- Polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)
- Protocol Uniondeb Proffesiynol
- Prosesau Diogelu, Prosesu a Chadw Data
- Polisi Rheoli Data Ymchwil

### Cyfathrebu ac ymgysylltiad

10, Disgwylir i ymchwilwyr yn y Brifysgol fod yn gyfrifol am ddeall pa safonau a ddisgwylir ganddynt a sut i gynnal gwaith ymchwil ag uniondeb ac wrth ddilyn yr arfer gorau.

11, Mae'r Brifysgol yn cefnogi myfyrwyr a staff ymchwil gweithredol gyda hyn mewn sawl ffordd. Darperir hyfforddiant a chaiff canllawiau a gwybodaeth glir am bolisïau a gweithdrefnau a phroses glir ar gyfer adolygiad moesegol ei chyfleu a'i chyhoeddi ar wefan y Brifysgol. Cyhoeddir manylion cyswllt am ragor o wybodaeth ar-lein a chaiff gwybodaeth a diweddariadau newydd eu cyfleu drwy e-bost, ar-lein a thrwy gysylltiadau adrannol.

### Hyfforddiant

12, Mae gan staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol fynediad at amrywiaeth o gyrsiau, gwybodaeth

a chefnogaeth gan adrannau academaidd ac adrannau gwasanaeth. Mewn ymdrech barhaus i hyrwyddo ymarfer ymchwil da, mae'r adran Ymchwil Busnes ac Arloesi (YBA) yn cynnal nifer o ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddi yn flynyddol:

- Gweithdai Uniondeb a Moeseg Ymchwil; *cyfuniad o sesiynau wedi'u teilwra.*
- Sesiynau Ymgynefino â Moeseg Ymchwil; *gyfer pob aelod newydd o staff.*
- Sesiynau ymgynefino â Rheoli Data Ymchwil / Mynediad Agored.
- Hyfforddiant FfRhY/PURE.

13, Yn ogystal â'r uchod, rydym yn cynnig sesiynau *wedi'u teilwra* i adrannau a sefydliadau er mwyn cynnig cefnogaeth a chyngor wedi'i deilwra. Mae'r Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil yn gweithio'n agos ag adrannau yn unigol i gynnig hyfforddiant, arweiniad a chymorth sydd wedi'i deilwra i'w meysydd ymchwil a'u gofynion. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, rydym wedi llwyddo i gynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth ynghylch moeseg ac uniondeb, sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r nifer cynyddol o geisiadau a ddaeth i law i ymgysylltu â'r tîm moeseg a chael cyfleoedd am hyfforddiant a chyfarwyddyd.

Rhaid i fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig fynychu modiwl Moeseg ac Uniondeb yn eu blwyddyn gyntaf er mwyn gallu symud ymlaen i'w blwyddyn astudio nesaf. Mae'r modiwl hwn yn cynnwys nifer o sesiynau penodol ynghylch moeseg ac uniondeb, gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol a rheoli moeseg disgyblaeth-benodol. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu monitro drwy Ysgol y Graddedigion. Mae'r modiwl yn orfodol i bob myfyriwr ymchwil newydd (PhD ac MPhil). Cynhelir y modiwl hwn bob mis Medi a mis Ionawr. Mae cynnwys y modiwlau hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus gan y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil. Mae'n ofynnol i bob myfyriwr ymchwil gwblhau nifer o asesiadau ar ôl ymgymryd â'r modiwl hwn i sicrhau bod ganddynt Farn Foesegol Ffafriol cyn bwrw ymlaen â'u prosiectau ymchwil. Mae'r asesiadau hyn hefyd yn galluogi'r Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil i nodi unrhyw fyfyrwyr a allai fod yn bwriadu ymgymryd ag ymchwil risg uchel a chynnig cefnogaeth ac arweiniad iddynt a sicrhau bod yr holl brosesau priodol yn cael eu dilyn.

15, Yn gyffredinol, cynhelir hyfforddiant i fyfyrwyr Israddedig ac Uwchraddedig a Ddysgir gan adrannau unigol. Anogir cydlynwyr modiwlau a staff adrannol eraill i ymgorffori prosesau a gweithdrefnau priodol y Brifysgol wrth addysgu. Trefnir hyfforddiant ar y lefel hon ar lefel adrannol, fodd bynnag, mae'r Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil yn gweithio'n uniongyrchol gyda nifer cynyddol o adrannau i gynnig hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth i fyfyrwyr.

## Canllawiau

16, Er mwyn cynnal ac adeiladu ar bortffolio ymchwil llwyddiannus y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i fod yn gyfrifol ac yn broffesiynol yn y gymuned ymchwil. P'un a yw ymchwil yn cynnwys cyfranogwyr dynol ai peidio, nod nifer o weithdrefnau a nodiadau cyfarwyddyd yw cefnogi *ymwybyddiaeth foesegol, ystyriaeth* a chydymffurfio ym mhob maes:

**F, Diwylliant, datblygu ac arwain**

17, Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd cynnal amgylchedd ymchwil sy'n hyrwyddo arfer ymchwil da a diwylliant cryf o uniondeb ymchwil. Rydyn ni'n cyflawni hyn drwy ategu ein hymchwil gyda nifer o brosesau ansawdd a thrwy ddarparu cymorth perthnasol, polisïau ac arweiniad mewn fformat hygyrch iawn.

18, Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae'r Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil wedi blaenoriaethu gweithio'n agos ag adrannau i godi ymwybyddiaeth am arfer ymchwil da a chynyddu gwelededd polisïau a gweithdrefnau moeseg ymchwil. Mae ymchwilwyr wedi derbyn mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i geisio hwyluso eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o weithdrefnau a pholisïau moesegol. Daeth i'r amlwg bod angen mwy o gefnogaeth i ymchwilwyr sy'n symud i feysydd ymchwil trawsddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol.

## Strwythur Uniondeb a Moeseg

19, Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn gyd-is-bwyllgor o Gyngor a Senedd y Brifysgol. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys yr holl faterion polisi a llywodraethu sy'n ymwneud â moeseg ac uniondeb. Mae gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ddau Banel Moeseg Ymchwil sy'n bwydo'n uniongyrchol iddo; Y Panel Moeseg Ymchwil a'r Bwrdd Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid, mae'r Paneli'n gweithredu ar lefel weithredol ac yn adolygu ceisiadau moeseg gan y gymuned ymchwil.

20, Mae'r Bwrdd Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid yn bwydo eu cofnodion i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, mewn ymgais i gynnal arfer da a chysylltiadau.

21, O ran gweithredu, mae'r *Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil* yn gyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad cysylltiedig ac yn rhoi cyngor i ymchwilwyr ar bob lefel.

22, Mae gan gyfadrannau ac adrannau academaidd unigol *Gyfarwyddwyr Ymchwil* sy'n hyrwyddwyr o ran creu diwylliant ymchwil priodol.

23, Yn fewnol, mae'r Grŵp Concordat ar gyfer Datblygiad Ymchwilwyr yn cyfarfod drwy'r flwyddyn i ystyried materion sy'n ymwneud â datblygiad ymchwilwyr.

24, Mae'r arferion da a'r cyfleoedd hyn i ddatblygu'n sicrhau bod diwylliant o uniondeb a llywodraethu da yn rhan annatod o'r amgylchedd ymchwil.

## Monitro ac adrodd

25, Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod y Concordat ar gyfer uniondeb ymchwil yn cael ei weithredu o fewn ei hamgylchedd ymchwil a bod yr holl systemau a phrosesau yn adlewyrchu arfer da. Yn dilyn cyhoeddi adnodd hunanasesu'r Swyddfa Uniondeb Ymchwil (UKRIO) ym mis Medi 2021, mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cynnal adolygiad blynyddol o arferion a pholisïau moeseg ac uniondeb ymchwil y Brifysgol i ganfod meysydd y gallai fod angen eu diwygio neu eu gwella er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Concordat.

**System Adolygu Moeseg**

26, Mae'r Brifysgol yn cynnal safonau moesegol a phroffesiynol yn ei holl ymchwil, boed hwnnw'n ymchwil wedi'i ariannu ai peidio, trwy gyfrwng nifer o fecanweithiau trwy gydol cylch bywyd y prosiect:

- Mae HOLL ymchwil y Brifysgol yn mynd drwy asesiad 'cryno' o leiaf. Cynhelir yr asesiad ar lefel adrannol drwy *ffurflen gais ac asesiad moeseg ar-lein PA*.

- Fel rheol, caiff asesiadau eu hasesu gan Gyfarwyddwr Ymchwil y Gyfadran, sy'n penderfynu a oes angen gwneud cais i Banel Moeseg Ymchwil perthnasol.

- Mae'r system yn cadw cofnod canolog o gofnodion at ddibenion archwilio, sicrhau ansawdd a monitro.

- Mae'r system yn darparu cyfeirnod moeseg unigryw i bob asesiad ac mae angen yr wybodaeth hon yn rhan o'r broses gymeradwyo fewnol ar gyfer ceisiadau am grantiau ymchwil. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl brosiectau a ariennir wedi cyflwyno cais am adolygiad moesegol ar adeg gwneud y cais am grant, ac fe ddilynir hynny os oes angen gydag adolygiad pellach ar adeg y dyfarnu.

## Adolygu proses

27, Mae prosesau a gweithdrefnau yn y Brifysgol yn cael eu monitro'n barhaus at ddibenion sicrhau ansawdd a gwella, mae enghreifftiau'n cynnwys:

- ***Symleiddio prosesau moeseg***: mae'r holl asesiadau a cheisiadau moeseg ymchwil yn cael eu gweinyddu trwy system ar-lein ganolog.

- ***Polisi Archwilio:*** Mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi adolygu archwiliadau sy'n cynnal adolygiad blynyddol o nifer o brosiectau ymchwil sydd wedi cael eu hadolygu gan y Panel Moeseg Ymchwil. Gellir hefyd sbarduno archwiliadau lle mae cwyn/pryder yn cael ei godi ynghylch prosiect ymchwil.

- ***Adolygu polisïau a gweithdrefnau:*** Caiff gweithdrefnau o dan gylch gwaith YBA eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y gweithdrefnau'n bodloni safonau/fframweithiau cenedlaethol a phroffesiynol.

## F, Newidiadau a datblygiadau yn ystod y cyfnod dan sylw

## <u>Hyfforddiant</u>

28, Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad i'r holl staff a myfyrwyr ac mae wedi cymryd camau i sicrhau bod lefel gyffredinol o hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bob ymchwilydd. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, treialodd y Brifysgol danysgrifiad blwyddyn i 2 gwrs ar-lein a ddarparwyd gan Epigeum, a oedd yn cynnig nifer o fodiwlau sy'n ymwneud â moeseg ac uniondeb ymchwil a oedd ar gael i'r holl staff a myfyrwyr. Ar ôl adolygu'r

fenter hon penderfynwyd na fyddai'r Brifysgol yn parhau gyda'r tanysgrifiad, ond cydnabuwyd y dylai adnodd penodol i Brifysgol Aberystwyth ddisodli hyn yn y dyfodol agos. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at ddatblygu mwy o fodiwlau hyfforddi i'w cyflwyno'n fewnol a fydd ar gael i'r holl staff a myfyrwyr, er mwyn hyrwyddo’r arferion gorau yn barhaus a sicrhau bod pob ymchwilydd yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Brifysgol yn unol â’r Concordat ac yn ymgyfarwyddo ag unrhyw faterion moesegol sy’n dod i’r amlwg.

29, Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod gan ymchwilwyr fynediad at yr hyfforddiant diweddaraf. Ym mis Ionawr 2024 cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gyda David Carpenter, trwy UKRIO. Cafodd yr holl staff ymchwil gweithredol a’r myfyrwyr ymchwil gyfle i fynychu'r sesiwn hyfforddi drwy Teams. Daeth dros 140 o aelodau o staff a myfyrwyr i'r sesiwn foeseg. Hefyd, cynhaliodd David sesiwn hyfforddi ar wahân ar gyfer holl aelodau'r Panel Moeseg Ymchwil. Rhoddodd hyn fynediad i fyfyrwyr a staff y Brifysgol at hyfforddiant gan ddarparwr allanol ac ymgynghorydd moeseg a oedd yn gallu darparu cyngor ac arweiniad ac ateb unrhyw gwestiynau o safbwynt annibynnol.

30, Cynhaliodd y Brifysgol sesiwn hyfforddi allanol ym mis Hydref 2023 gyda'r Tîm Cyngor ar Ymchwil Cydweithredol a fynychodd y Brifysgol i roi cyngor i ymchwilwyr ar eu cyfrifoldebau ynghylch Ymchwil Dibynadwy.

**<u>System Adolygu Moeseg</u>**

31, Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu ffurflen asesu moeseg ar-lein newydd. Cafodd y system adolygu moeseg ar-lein bresennol ei datblygu’n fewnol yn 2014. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal yr arferion gorau a safon uchel o ran adolygu moeseg ceisiadau ymchwil, mae adolygiad o'r system bresennol wedi bod ar y gweill. Mae’r gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system adolygu well a phwrpasol er mwyn integreiddio adolygiadau o brosiectau ymchwil dynol ac ymchwil ag anifeiliaid. Mae gweithgor wedi profi system newydd yn APEX gyda'r nod o'i lansio cyn y Nadolig.

**<u>Adolygiad Llywodraethu Ymchwil</u>**

32, Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod prosesau ar waith a strategaethau wedi'u datblygu i reoli materion moeseg a llywodraethu yn llwyddiannus. Ar ôl adolygiad parhaus o’r systemau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer moeseg a llywodraethu yn y Brifysgol, cynhaliwyd adolygiad pellach ar gyfer llywodraethu ymchwil. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gymeradwywyd gan y Weithrediaeth o dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi yn 2023 ac adroddodd y grŵp i'r Uwch Weithrediaeth a'r Is-Ganghellor ym mis Rhagfyr 2023.

Darparodd y tasglu argymhellion a gyflwynwyd i'r Weithrediaeth a'r Is-Ganghellor yn y sesiwn 23/24. Cymeradwywyd yr argymhellion hyn ac mae'r Brifysgol bellach yn gweithio tuag at weithredu'r newidiadau newydd yn ystod blwyddyn academaidd 24/25.

**<u>Panel Moeseg Ymchwil</u>**

33, Mae'r Panel Moeseg Ymchwil yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod lefel eang o arbenigedd ar draws holl aelodau'r panel a'i nod yw sicrhau bod cyfle parhaus i staff wella eu profiad ac ymgymryd â gwaith yn y maes hwn. Ar ôl proses recriwtio lwyddiannus ym mis Awst 2023 a arweiniodd at recriwtio 26 aelod newydd o'r panel, cynhaliwyd rownd recriwtio pellach ym mis Mehefin 2024 lle ymunodd 17 aelod arall â'r panel.

34, Nod y recriwtio hwn hefyd yw sicrhau bod gan y panel gynrychiolaeth o bob adran academaidd ar draws y Brifysgol, yn ogystal ag ystyried tegwch, amrywioldeb a chynhwysiant wrth recriwtio i’r panel.

Mae'r cynrychiolwyr hyn yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil i sicrhau bod pob adran yn ymwybodol o’r prosesau a’r arferion moesegol cyfredol.

**<u>Adolygu Polisïau</u>**

35, Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi adolygu a diweddaru polisïau sy'n ymwneud ag Uniondeb Ymchwil fel yr amlinellir isod.

**Polisi Apeliadau y Panel Moeseg Ymchwil**

36, Mae Polisi Apeliadau Panel Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod gan ymchwilwyr ffordd deg a thryloyw o apelio yn erbyn Barn Foesegol Anffafriol a roddir gan y Panel Moeseg Ymchwil.

**Cylch Gorchwyl y Panel Moeseg Ymchwil**

36, Mae cylch gorchwyl Panel Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**Cylch Gorchwyl Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol**

38, Cafodd cylch gorchwyl Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ei adolygu a'i gymeradwyo ym mis Hydref 2023.

**Polisi Archwilio Moeseg Ymchwil**

39, Adolygwyd Polisi Archwilio Moeseg Ymchwil y Brifysgol a chafodd diwygiad ei gynnwys a'i gymeradwyo ym mis Hydref 2023.

## G, Myfyrdodau ar gynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol

40, Mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd da gyda'r cynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol fel yr amlinellir yn ei Datganiad Uniondeb Blynyddol 2022/23.

41, Fel yr amlinellwyd uchod y prif dargedau yr oedd y Brifysgol eisiau eu cyflawni yn y flwyddyn 2023/24 oedd:

- Sicrhau ein bod yn adeiladu ar ein rhaglen hyfforddiant gyfredol ar gyfer staff a myfyrwyr a darparu lefel gyffredinol o hyfforddiant, sy'n ymgorffori materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yng nghyswllt uniondeb ymchwil y dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol ohonynt. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyflwyno sesiynau hyfforddi newydd yn fewnol.

- Gweithredu argymhellion o adolygiad o'r systemau moeseg a llywodraethu (a gymeradwywyd gan yr Uwch Weithrediaeth ym mis Rhagfyr 2023) ar draws y Brifysgol.

- Lansio'r system ar-lein newydd a datblygedig ar gyfer adolygiad moesegol. Mae'r system yn y cyfnod profi ar hyn o bryd a dylai fod yn barod i'w lansio i ddefnyddwyr cyn Nadolig 2024.

- Parhau i adolygu perfformiad y Brifysgol yn erbyn y Concordat diwygiedig i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Fe'i gweithredwyd ym mis Chwefror 2023 fel mecanwaith ar gyfer adolygiad blynyddol o foeseg ac uniondeb ymchwil.

**Datblygiadau yn y Dyfodol**

42, Mae'r Brifysgol yn bwriadu parhau i adeiladu ar ei rhaglen hyfforddi bresennol ar gyfer moeseg ac uniondeb ymchwil. Bydd y Brifysgol yn cynnal sesiwn hyfforddi arall ym mis Tachwedd 2024 ar Ymchwil Dibynadwy gan y Tîm Cyngor ac Ymchwil Cydweithredol.

43, Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi trafod yr angen am adolygiad eang o Weithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil. Y nod yw sefydlu gweithgor i drafod ffordd ymlaen yn sesiwn 2024/25. Bydd hyn yn rhan o'r broses gweithredu llywodraethiant newydd.

44, Mae'r Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil yn gweithio'n flynyddol gyda chydweithwyr ar adolygiad o'r holl bolisïau cyfredol ar gyfer moeseg ymchwil, uniondeb a llywodraethu. Y nod yw sicrhau bod yr holl bolisïau yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

## H, Camymddwyn mewn Ymchwil: Datganiad ar y prosesau sydd ar waith gan y sefydliad ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn

45, Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i gynnal diwylliant sy'n hyrwyddo arfer da ac yn annog ymchwil onest a moesegol. Mae gan ymchwilwyr gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil ac mae'r Brifysgol wedi creu gweithdrefn sydd nid yn unig yn hwyluso’r gwaith o ymchwilio i gamymddwyn mewn ymchwil ond sydd hefyd yn caniatáu i bobl deimlo'n gyfforddus i roi gwybod am unrhyw honiadau.

46, Rhaid i bob aelod o'r Brifysgol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil, fod yn ymwybodol o'r polisïau canlynol a deall sut maent yn gweithredu yng nghyswllt eu rôl yn Aberystwyth. Mae'r holl bolisïau hyn yn cael eu harddangos yn glir ar wefan y Brifysgol, gyda chysylltiadau am ragor o wybodaeth y gellir ei thrin yn gyfrinachol os oes angen.

**Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil**

47, Mae gan y Brifysgol fecanweithiau trylwyr ar waith ar gyfer **rhoi gwybod** am unrhyw ddrwgweithredu ac ar gyfer **ymdrin â** honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil. Mae'r Brifysgol yn ystyried honiadau o gamymddwyn o ddifrif ac mae wedi datblygu gweithdrefn i hwyluso archwiliad llawn o’r materion mewn ymchwil a all godi mewn sefyllfaoedd o gamymddwyn posibl.

48, Mae'r weithdrefn hon yn dilyn y canllawiau ar gyfer Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil a gyhoeddwyd gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU ym mis Awst 2008 ac yn unol â chanllawiau o’r Concordat. Ei hamcanion yw sicrhau y gellir mynd i'r afael â materion o gamymddwyn mewn ymchwil yn briodol a'u hymchwilio'n effeithiol a galluogi panel annibynnol i lunio adroddiad. Gall y Brifysgol gychwyn camau priodol wedyn ar sail yr adroddiad hwnnw.

49, Mae'r weithdrefn yn sicrhau didwylledd, tryloywder a thegwch yn ei thrafodion, gyda chamau ac amserlenni clir i bawb dan sylw.

50, Mae'r Brifysgol yn cynnig proses anffurfiol o reoli honiadau o'r fath i leddfu'r pryder y gallai rhai deimlo wrth wneud cwyn. Mae gan achwynydd dri opsiwn arall yn hytrach na chwyn ffurfiol:

A) Mynd at yr unigolyn a chwilio am ffordd ar y cyd i ddatrys y mater.
B) Mynd at Ddirprwy Is-Ganghellor y gyfadran/Pennaeth yr Adran Gwasanaeth a gofyn iddynt weithredu fel cyfryngwr rhwng y ddwy ochr i ddatrys y mater.
C) Chwilio am gyfryngwr sydd wedi'i hyfforddi gan ACAS yn y Brifysgol.

51, Os oedd ymchwilydd yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ond rhoi gwybod am honiad o gamymddwyn mewn ymchwil, mae'r Brifysgol wedi datblygu gweithdrefnau fel yr amlinellwyd yn flaenorol, sydd nid yn unig yn darparu mecanwaith i ymchwilio i'r honiad ond hefyd i gefnogi'r ymchwilydd/ymchwilwyr dan sylw.

52, Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi argymell adolygiad helaeth o'r polisi hwn a disgwylir iddo gael ei gynnal o fewn sesiwn 2023/24.

53, Mae dau achos o gamymddwyn mewn ymchwil wedi cael eu cofnodi a'u hymchwilio. Mae'r ddau achos o gamymddwyn mewn ymchwil a gofnodwyd wedi’u datrys yn ddiweddar a chynhelir adolygiad llawn o'r gwersi a ddysgwyd o'r achosion ar wahân.

**Chwythu'r chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd)**

54, Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd. Ei nod yw cynnal ei busnes mewn modd cyfrifol, gan gymryd i ystyriaeth ofynion y cyrff cyllido a'r safonau mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r Brifysgol hefyd yn dymuno sicrhau bod unrhyw un sy'n datgelu drwgweithredu yn y gwaith yn gallu gwneud hynny heb ofni cosb.

55, Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio ar gyfer holl weithwyr, myfyrwyr a chontractwyr y Brifysgol i gynorthwyo unigolion sy'n credu eu bod wedi darganfod drwgweithredu yn y Brifysgol.

**Polisi Urddas a Pharch yn y Gwaith**

56, Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith a dysgu sy'n cyfoethogi bywydau, a lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch.

57, Ni fydd y Brifysgol yn goddef bwlio nac aflonyddu o unrhyw fath (mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu anghyfreithlon ac erledigaeth). Ni ddylai'r rhai sy'n gweithio neu'n ymdrin â'r Brifysgol gael eu trin yn anffafriol na bod yn destun bwlio nac aflonyddu.

58, Mae'n ofynnol i'r holl staff drin cydweithwyr ag urddas a pharch yn y gwaith. Mae gennym gyfrifoldeb personol i drin ein gilydd yn y ffordd yr hoffem gael ein trin ein hunain a dylem roi gwybod i unigolion yn uniongyrchol, pan fo'n bosibl, os yw ein disgwyliadau o ran eu hymddygiad tuag atom yn methu'r nod.

59, Nod y polisi hwn yw:

- Rhoi arweiniad i gydweithwyr am eu cyfrifoldeb i sicrhau urddas a pharch eraill;
- Rhoi gwybod i gydweithwyr am eu hawliau os ydynt yn teimlo nad ydynt yn cael eu trin ag urddas a pharch gan gydweithwyr a chyfeirio cydweithwyr at yr adnoddau y gallant eu defnyddio yn y sefyllfaoedd hyn
- Annog ymddygiad cadarnhaol a defnyddio dulliau anffurfiol i ddatrys problemau lle bo hynny'n bosibl
- Pwysleisio ymrwymiad i werthoedd PA yng nghyswllt urddas a pharch yn y gwaith

## I, Gwybodaeth am ymchwiliadau a gynhaliwyd i gamymddwyn mewn ymchwil.

| Math o honiad | Nifer yr honiadau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr honiadau a adroddwyd i'r sefydliad | Nifer yr ymchwiliadau ffurfiol | Nifer a gadarnhawyd yn rhannol ar ôl ymchwiliad ffurfiol | Nifer a gadarnhawyd yn llawn ar ôl ymchwiliad ffurfiol |
| Ffugio | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Anwiredd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llên-ladrad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Methu â bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Camliwio (e.e. data; cyfraniad; diddordebau; cymhwyster; a/neu hanes cyhoeddi) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Materion o bryder lluosog (pan gânt eu derbyn mewn un honiad) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Arall** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm:** | | | | **0** |